

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)	STANDING ADVISORY COUNCIL (SAC)
DYDD IAU, 13 CHWEFOR 2025 AM 2:00 O'R GLOCH	THURSDAY, 13 FEBRUARY 2025 AT 2:00 PM
YSTAFEELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors: -

Non Dafydd, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Keith Roberts, Alwen P Watkin, Arfon Wyn

Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations

Parch/Rev Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Colette Owens (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents), Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales), Huw Owen (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales)

Athrawon/Teachers

Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members

Rheinallt Thomas

Cynrychiolydd Anghrefyddol/Non-Religious Representative

Sarah Lloyd (Dyneiddwyr/Humanists)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYS a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024.

Materion sy'n codi o'r cofnodion: -

- Cynnwys Crynodeb y Cadeirydd yn Adran 1.1. o Adroddiad Blynnyddol CYS.
- Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn diweddarau'r templed hunan-werthuso a gyflwynwyd yn yr adroddiad, a
- chyflwyno addasiadau i'r templed yng nghyfarfod nesaf y CYS.
- Bod fersiwn derfynol Adroddiad Blynnyddol CYS Ynys Môn ar gyfer 2023/24 yn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.
- Yr Uwch Reolwr Cynradd i drefnu ymweliad ag ysgol uwchradd ar Ynys Môn yn fuan.
- Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn cysylltu â Jenny Downs o'r Eglwys yng Nghymru i geisio cymeradwyaeth i'r CYS gynnwys adroddiadau Adran 50 yr Eglwys fel rhan o werthusiadau'r CYS mewn archwiliadau ysgolion.
- Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn gwahodd y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb, Casineb a Throsedd i fynyachu cyfarfod nesaf y CYS ym mis Chwefror i gyflwyno trosolwg ar waith yr Heddlu.

3 **CYMDEITHAS CYSAGAUC** (Tudalennau 9 - 14)

- a) Ffilm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- b) Prosiect Llais Yr Athro: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru –

I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd Proffesiynol i'r CYS, Mr Phil Lord.

4 **EITEMAU CENEDLAETHOL AR GREFYDD GWERTHOEDD A MOESEG - BETH SY'N NEWYDD I RESTR CHWARAE LLYWODRAETHWYR?**

I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd Proffesiynol i'r CYS.

5 **CGM GORFODOL - CYFLWYNIAD I ATHRAWON UWCHRADD** (Tudalennau 15 - 42)

I dderbyn cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd Proffesiynol i'r CYS.

6 **CGM A'R CWRICWLWM I GYMRU - CYFLWYNIAD I ATHRAWON CYNRADD**
(Tudalennau 43 - 72)

I dderbyn cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd Proffesiynol i'r CYS.

7 **CYFLWYNIAD GAN HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

I dderbyn cyflwyniad gan Einir Williams, y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Throseddau Casineb, Heddlu Gogledd Cymru.

8 **UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS**

Materion i gyfarfod nesaf y CYS ar 10 Gorffennaf 2025 am 2:00 o'r gloch y prynhawn.

This page is intentionally left blank

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024

YN BRESENNOL: Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Dylan Rees

Yr Enwadau Crefyddol

Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Mr Huw Owen (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)

Athrawon Gynrychiolwyr

Mr Richard Jones (Ysgol Santes Fair, Caergybi (o 2:30pm)
Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
Mrs Manon Morris-Williams (Ysgol Santes Dwynwen) (o 3:00pm)

Aelodau'r Grŵp Anghrefyddol

Sarah Lloyd (Cymdeithas y Dyneiddwyr) (o 2:10pm)

WRTH LAW: Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr Cynradd, Addysg) (Clerc i'r CYSAG)
Mr Phil Lord (Ymgynghorydd Proffesiynol i'r CYS)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Gwilym O Jones
Mr Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Y Parchedig Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)
Y Parchedig Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)

HEFYD YN BRESENNOL: Dr Gareth Evans-Jones (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru) (eitem 5) (o 2:10pm)

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w derbyn.

2. COFNODION

Cyflwynwyd, a chadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd 17 Gorffennaf 2024, yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion: -

- Mae cyflwyniad gan Ganolfan Addysg Grefyddol Cymru wedi'i neilltuo ar gyfer Eitem 5 ar yr agenda heddiw.
- Cadarnhawyd bod copi o gyflwyniad y Pilgrimage Project wedi'i rannu gyda'r CYS.
- Bydd Adroddiad Drafft Blynnyddol y CYS ar gyfer 2023/24 yn cael ei gyflwyno i'r CYS yn ystod eitem 4 ar yr agenda heddiw.
- Cadarnhawyd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Pennaeth Democratiaeth ac Arweinwyr Grŵp ynghylch penodi dau aelod newydd i'r seddi gwag ar y CYS.

3. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad ar weithgareddau'r CCYSAGauC yn ystod 2023 a 2024, a Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 13 Mehefin 2024 er gwybodaeth a chawsant eu nodi.

Roedd Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS yn bresennol yng Nghynhadledd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) y CCYSAGauC ar 13 Mehefin 2024, ym Mhrifysgol Wreccsam, ar y cyd â PYCAG.

Nodwyd y pwyntiau canlynol o'r cyfarfod: -

- Fe siaradodd yr Athro Graham Donaldson am bwysigrwydd CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru.
- Siaradodd Lynn Neagle am CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru, ac amlinellu ei blaenoriaethau.
- Cynhaliwyd seminarau ymneilltuo gan ysgolion ar y Cwricwlwm i Gymru. Cyfeiriwyd at un ysgol oedd yn cymryd rhan mewn Prosiect y Cyngor Celf ar y thema 'Cynefin'. Roedd yr ysgol yn edrych ar amrywiaeth yn ei chymuned ac wedi gweithio gydag ysgol yn Wreccsam ar ddarn celf yn seiliedig ar y thema 'hunaniaeth'. Drwy'r thema hwn, cafodd y disgyblion gyfle i fyfyrio ar eu hunaniaeth, pwy oedden nhw, eu credoau, o ble maen nhw wedi dod a ble maen nhw'n ei alw'n 'adref'.

Nodwyd bod athrawon ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru wedi mynychu Cynhadledd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) y CCYSAGauC. Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar lywodraethu ym maes CYSau, a sut mae CYSau yn darparu cefnogaeth ac yn monitro eu hysgolion eu hunain.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

(Ymunodd Sarah Lloyd a Dr Gareth Evans-Jones â'r cyfarfod am 2:10pm)

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER 2023/24

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft y CYS ar gyfer 2023/24 gerbron y CYS am ystyriaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd a rhoddodd deyrnged i'r diweddar Miss Bethan James, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y CYSAG, a fu farw mis Ionawr eleni. Diolchodd Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS, a fu'n gweithio gyda Miss James yn GwE, i'r Cadeirydd am ei geiriau caredig.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y pwyntiau canlynol yn ei chrynodeb: -

- Mae newidiadau diweddar i aelodaeth y CYS wedi ehangu'r cwrpas ar gyfer aelodau newydd.
- Mae adroddiadau archwilio Estyn yn ystod y 12 mis diwethaf wedi dangos bod safonau Addysg Grefyddol yn Ynys Môn wedi bod yn rhagorol.
- Bu Cadeirydd ac aelod arall o'r CYS yn ymweld ag Ysgol Bodffordd ac roeddynt wedi synnu pa mor dda mae CGM wedi ymgorffori mewn gwersi yn yr ysgol. Cafodd aelodau eraill o'r CYS eu hannog i ymweld ag ysgolion yn ystod y flwyddyn newydd.
- Mae nifer y disgyblion sy'n astudio CGM TGAU wedi cynyddu. Gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r cwriclewm drwy gynhyrchu casgliad o leoliadau ysbrydol ar gyfer ysgolion, fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein.

Cyfeiriodd Ymgynghorydd Proffesiynol CYS at y pwyntiau canlynol yn yr adroddiad: -

- Bydd crynodeb y Cadeirydd yn cael ei gynnwys dan Adran 1.1. yr adroddiad.
- Mae dolenni at Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y Cwriclewm i Gymru wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- Mae blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 mewn ysgolion ar Ynys Môn yn defnyddio'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol fel eu Maes Llafur Cytunedig Lleol.
- Mae nifer y disgyblion sy'n astudio Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch wedi disgyn ers y llynedd.
- Archwiliodd Estyn 7 ysgol y llynedd, ac adrodd ar bob un.
- Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithredu ar geisiadau gan y CYS, a amlinellir yn Adran 2.4 yr adroddiad.
- Mae'n ddyletswydd ar ysgolion i gynnig sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae adnoddau ar gyfer ysgolion ar wefan y CCYSAGauC i fodloni gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.
- Mae templed CYS yn adran 3.3 yr hunan-werthusiad ar gyfer ysgolion mewn perthynas â safonau Addysg Grefyddol yn cyfeirio at Addysg Grefyddol yn hen Fframwaith Archwilio Estyn. Mae Estyn wedi addasu ei Fframwaith, a bellach mae ganddo 3 maes archwilio yn hytrach na 5. Mae'r templed wedi dyddio, a bydd angen cael gwared arno ar gyfer yr adroddiad blynyddol nesaf. Efallai y bydd angen ei ail ysgrifennu os yw ysgolion yn edrych ar Addysg Grefyddol drwy lygaid Estyn.
- Roedd y meini prawf maes archwilio ar dudalen 28 ar gyfer hunan-werthusiad ysgolion ar Addysg Grefyddol yn berthnasol yn ystod cyfnod yr adroddiad, ond bydd angen ei ddiweddarau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Addysg, yr Uwch Reolwr Cynradd (Clerc y CYS) ac Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS am eu gwaith yn paratoi Adroddiad Blynyddol y CYS.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Adroddiad Blynyddol y CYS ar gyfer 2023/24.**
- **Cynnwys Crynodeb y Cadeirydd yn Adran 1.1. yr adroddiad.**
- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn diweddarau'r templed hunan-werthuso a gyflwynwyd yn yr adroddiad, a**
- **chyflwyno addasiadau i'r templed yng nghyfarfod nesaf y CYS.**
- **Bod fersiwn derfynol Adroddiad Blynyddol CYS Ynys Môn ar gyfer 2023/24 yn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.**

(Ymunodd Mr Richard Jones â'r cyfarfod am 2:30 pm)

5. CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU

Cafwyd gyflwyniad gan Dr Gareth Evans Jones ar Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, sydd wedi bod yn cefnogi athrawon ac Addysg Grefyddol ers yr 1970au. Dywedodd, ynghyd â Mrs Mefys Jones-Edwards, ei fod yn rhan o dîm a ail lansiodd y Ganolfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2023. Mae'r Ganolfan bellach yn cynrychioli sawl crefydd a ffydd gwahanol er mwyn hyrwyddo addysg sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae'r Ganolfan yn cynnig nifer o gyfleoedd i ymgysylltu gydag ysgolion a sefydliadau ffydd, am ddim. Ymhlith digwyddiadau diweddar mae: -

- Cynhaliwyd Ysgol Basg oedd yn cynnig sesiynau adolygu ar gyfer disgyblion oedd yn astudio TGAU a Safon Uwch.
- Cynhaliwyd cynhadledd yng Ngholeg Sir Gâr, gyda dysgwyr blwyddyn 7 o ysgolion gwahanol yn bresennol.
- Cafwyd sgwrs gyda Ficer Eglwys Anglicanaidd Trawsfynydd yn y Ganolfan, gyda 4 ysgol yn mynychu'n rhithiol.
- Mae'r Ganolfan wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar yr Holocost, lle cafwyd panel rithiol i drafod sut i gofio'r Holocost mewn ffordd ddigidol. Codwyd pwyntiau, megis a yw'n dderbyniol defnyddio hologramau a DA (Deallusrwydd Artiffisial) i drafod yr Holocost.

Nodwyd bod y Ganolfan yn rhannu gwybodaeth am wahanol feddylwyr, athronwyr a damcaniaethwyr ar Instagram. Yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu, bydd gwybodaeth am arweinwyr crefyddol du pwysig yn cael ei rhannu ar Instagram, sy'n cysylltu â'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y Cwricwlwm i Gymru o ran creu amrywiaeth ehangach.

Ar Ddiwrnod y Ddaear, rhennir dyfyniadau gan amgylchfydwyr gwahanol. Mae cynrychiolydd o'r Ganolfan yn gweithio gyda'r Prosiect Heddwch mewn Addysg, a gafodd ei gynnal yn Eisteddfod Llangollen.

Nod y Ganolfan yw parhau i gefnogi athrawon ledled Cymru a chefnogi Addysg Grefyddol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Ganolfan yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rolau ymgynghorol a sefydliadau ffydd a bydolygon. Mae trafodaethau ar sut i gydweithio'n well â'r CYS hefyd wedi bod yn mynd rhagddynt.

Dywedodd Mrs Mefys Jones-Edwards bod staff yn y Ganolfan wedi cynnig cefnogaeth i ysgolion Ynys Môn, yn enwedig Ysgol Syr Thomas Jones (YSTJ). Dywedodd bod athrawon yr ysgol uwchradd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r sesiynau hyfforddi sydd ar gael i ysgolion, sy'n cael eu darparu mewn ffordd ddiddorol. Nodwyd bod y Ganolfan yn darparu adnoddau arbennig, ac mae disgyblion YSTJ wedi elwa o gymryd rhan yn y sesiynau. Diolchodd yr athrawes i Mr Evans-Jones a'i staff am eu gwaith.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut mae gwerthoedd anghrefyddol yn cael eu cysylltu â gwaith y Ganolfan mewn ffordd gadarnhaol? Dywedodd Dr Evans-Jones bod staff yn y Ganolfan yn gweithio'n agos gyda Humanists UK, ac wedi meithrin perthynas iach gyda'r sefydliad. Dywedodd bod y Ganolfan yn cydnabod ac yn ymgorffori bydolygon anghrefyddol yn eu gwaith, a'i fod yn rhan annatod o'r Cwricwlwm Newydd. Nodwyd bod cynrychiolydd ar gyfer y Dyneiddwyr yn mynychu Diwrnod y Panel Rhyng-ffydd ym Mhrifysgol Bangor ar 13 Tachwedd 2024, a bydd bydolygon llai poblogaidd hefyd yn cael eu cynrychioli.

Gofynnwyd a oedd y Ganolfan ynghlwm ag addysgu diwinyddiaeth cyd-destunol ar lefel gradd neu ôl-radd? Dywedodd Dr Evans-Jones ei fod yn ddarlithydd Diwinyddiaeth a Diwinyddiaeth Gymharol yn Adran Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd Prifysgol Bangor. Dywedodd, am fod y pynciau mor amrywiol, maent yn galluogi darlithwyr i alinio a'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Dywedodd, eleni, ei fod yn addysgu Diwinyddiaethau Cristionogol yn y Byd Modern. Y flwyddyn nesaf, bydd yn addysgu Dyneiddiaeth, ac yna Paganiaeth yn y byd ôl-fodern y flwyddyn ganlynol.

Gofynnwyd a oes unrhyw brosiectau ar y thema Heddwch mewn Addysg, neu a yw'r plant yn gwneud gwaith celf ar y pwnc? Dywedodd Dr Evans-Jones bod Prosiect Heddwch mewn Addysg wedi bod, yn benodol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9. Dywedodd y byddai'n hoffi ehangu'r prosiect gydag Academi Heddwch Cymru a chyflwyno'r cynnig i aelodau bwrdd y Ganolfan. Byddai'n galluogi ysgolion i weithio gyda'r gymuned a'r ynys gyfan er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i fyfrio ar y thema'n greadigol.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Gareth Evans-Jones am ei drosolwg addysgiadol ar waith y Ganolfan a'r hyn oedd ar gael, sy'n adnodd defnyddiol iawn ar gyfer ysgolion Ynys Môn.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

6. YMWELIAD AELODAU CYS YNYS MÔN I YSGOL UWCHRADD

Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd bod trefniadau ar waith i aelod o'r CYS ymweld ag ysgol uwchradd ar Ynys Môn. Yn anffodus, nid oedd yr ysgol yn

gallu hwyluso'r ymweliad hwnnw, a thynnwyd eu gwahoddiad yn ôl.

Dywedodd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd eu bod yn fodlon mynychu ymweliad ysgol.

PENDERFYNWYD bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn trefnu ymweliad ag ysgol uwchradd ar Ynys Môn yn fuan.

(Ymunodd Mrs Manon Morris-Williams â'r cyfarfod am 3:00pm)

7. MANYLEB DRAFFT ASTUDIAETHAU CREFYDDOL TGAU A DIWEDDARIAD AR YSGOLION UWCHRADD

Siaradodd Mrs Mefys Jones-Edwards am ei phrofiad o addysgu Addysg Grefyddol yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Dywedodd bod nifer uchel o ddisgyblion yn dilyn y pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch yn ei ysgol.

O ran pynciau Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, dywedodd yr athrawes bod y cwestiwn mawr yn cael ei drin mewn ffordd ddisgyblaethol. Dywedodd ei bod yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, tra bod yr arbenigwyr Hanes a Daearyddiaeth yn addysgu eu pynciau unigol, a bod yr athro Busnes yn darparu mewnbwn i'r pwnc. Nodwyd, yn YSTJ, bod myfyrwyr yn gwneud llawer o waith ar y pwnc: maent yn edrych ar lyfrau, mae'r athro'n cwestiynu'r disgyblion ac yn gwrando arnynt, sy'n creu sylfaen gref wrth baratoi ar gyfer TGAU.

Dywedodd yr athrawes, er mwyn cyflwyno'r cwestiwn mawr mewn Dyniaethau, rhaid cynllunio ymlaen llawn. Mae'n rhaid i bob athro Dyniaethau fod yn ymwybodol o'r hyn mae athrawon eraill o fewn y pwnc yn ei addysgu fel eu bod yn plethu gyda'i gilydd er mwyn creu'r darlun mwy. Ar ddiwedd bob cwestiwn mawr, gall athrawon gwahanol ymateb i bob pwnc Dyniaethau. Mae'n rhaid i athrawon allu gweld y cysylltiad rhwng pynciau er mwyn bodloni anghenion y Cwricwlwm Newydd. Dywedodd ei bod yn bosibl dewis eich trywydd, a chynhelir trafodaethau cyson rhwng athrawon a disgyblion. Dywedodd yr athrawes ei bod yn angerddol iawn dros Addysg Grefyddol, a'i bod hi eisiau gweithredu'r manyleb newydd yn gywir, fel bod disgyblion yn cyrraedd y safon.

Mynegodd yr athrawes bryder bod y Manyleb Drafft newydd ar gyfer TGAU yn drwm a manwl, er bod rhai elfennau'n plethu gyda'r Cwricwlwm i Gymru. Gwahoddodd aelodau o'r CYS i ymweld ag YSTJ i siarad a dysgwyr ac edrych ar eu gwaith.

Dywedodd Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS fod CBAC wedi cadw'r elfen Addysg Grefyddol yn hytrach na newid y cymhwyster i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg TGAU. Dywedodd fod pryderon wedi'u mynegi nad yw disgyblion yn barod ar gyfer TGAU ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9, a'u bod yn colli allan ar ehangder y lensys am eu bod yn paratoi ar gyfer TGAU. Gall hyn gyfyngu'r cwricwlwm a bydd disgyblion yn colli allan ar gyfleoedd diddorol yn ystod blynnyddoedd 7, 8 a 9, gan fod Cristnogaeth a'r 5 system cred mawr dal yn cael eu defnyddio. Nodwyd y bydd cyfle yn un o'r unedau i drafod Paganiaeth, er enghraifft, ond ni fydd hynny yn ystod y cwrs TGAU cyfan.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

8. UNRHYW FATER ARALL YN BERTHNASOL I'R CYS

Gofynnwyd a oedd CYS Ynys Môn yn adrodd ar archwiliadau Adran 50 ar gyfer Addysg grefyddol, gan fod gan ysgolion enwadol gwirfoddol a gynorthwyr archwiliadau ar wahân ar gyfer Addysg grefyddol.

Dywedodd Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS nad yw adrodd ar archwiliadau Adran 50 o fewn cylch gorchwyl y CYS, ond byddai'n croesawu hynny yn sgil y berthynas rhwng y sectorau gwahanol o ganlyniad i'r Cwricwlwm i Gymru a'r ddogfen canllawiau. O ran pleidleisio'r CYSAG, byddai agen cymeradwyaeth gan yr Eglwys yng Nghymru, y Sector Catholig a'r CYS. Nodwyd nad yw ysgolion yr Eglwys yng Nghymru wedi'u harchwilio ers cyn Covid.

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn e-bost gan athro ar Ynys Môn yn gofyn am eglurder ynghylch y gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 4.

Dywedodd Ymgynghorydd Proffesiynol y CYS fod yr hawl statudol wedi cynyddu i 16 oed. Dywedodd fod rhaid addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg neu Addysg Grefyddol i bob disgybl ym mlwyddyn 7, 8 a 9. Os addysgir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddisgybl, mae hynny'n disodli Addysg Grefyddol. Os nad yw disgyblion yn astudio Addysg Grefyddol, byddai'n rhaid iddynt lynu wrth y Maes Llafur Cytunedig.

- Dywedodd y Cadeirydd bod cynnydd wedi bod mewn troseddau casineb a chrefydd. Dywedodd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru i roi cyflwyniad ar drosedd casineb. Dywedodd ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb, Casineb a Throseddu, ac gofynnod am sylwadau'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD

- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn cysylltu â Jenny Downs o'r Eglwys yng Nghymru i geisio cymeradwyaeth i'r CYS gynnwys adroddiadau Adran 50 yr Eglwys fel rhan o werthusiadau'r CYS mewn archwiliadau ysgolion.**
- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn gwahodd y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb, Casineb a Throsedd i fynychu cyfarfod nesaf y CYS ym mis Chwefror i gyflwyno trosolwg ar waith yr Heddlu.**

9. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y CYS yn cael ei gynnal ddydd Iau, 13 Chwefror 2025 am 2:00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben 3:40 pm

**CYNGHORYDD NON DAFYDD
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

TEITL YR ASTUDIAETH: Prosiect Llais Yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru	STUDY TITLE: The Teacher Voice Project: RVE in the Curriculum for Wales
<i>At bwy mae'r astudiaeth wedi'i hanelu ?</i> Anelir yr astudiaeth hon at athrawon yng Nghymru. Rhaid i'r cyfranogwyr fod yn ymarferwyr sy'n addysgu yng Nghymru (o fewn cyd-destun ysgol neu leoliad 3 i 16 oed). Mae hyn yn cynnwys athrawon yn yr ysgolion a'r lleoliadau canlynol: Meithrin, Cynradd, Uwchradd, Ysgolion Pob Oed, Arbennig, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. <i>Pwy sy'n gyfrifol am yr astudiaeth?</i> Gyda chefnogaeth Cymdeithas CYSAGau / CYSau Cymru, mae'r astudiaeth gydweithredol hon wedi'i dyfeisio a'i chynnal gan ymchwilwyr o Ganolfan San Silyn Wrecsam, Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot, ac Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd. <i>Beth yw pwnc yr astudiaeth?</i> Mae'r astudiaeth hon wedi'i chynllunio i gael mynediad uniongyrchol at brofiadau athrawon o'r newidiadau cwricwlwm yng Nghymru a'u hymgysylltiad â nhw, gyda ffocws ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM). Nod yr astudiaeth yw rhoi 'ciplun' o safbwyntiau athrawon ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, a all lywio'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol a deialog broffesiynol ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal er budd y cyhoedd. <i>Beth fydd cymryd rhan yn yr astudiaeth yn ei olygu?</i> Os yw cyfranogwyr posibl yn penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth, ar ôl iddynt ddarllen y wybodaeth hon i gyfranogwyr, yna bydd angen iddynt	<i>Who is the study aimed at?</i> This study is aimed at teachers in Wales. Participants must be practitioners teaching in Wales (within a 3- to 16-year school or setting context). This includes teachers in the following schools and settings: Nursery, Primary, Secondary, All-age School, Special, and PRU. <i>Who is responsible for the study?</i> With the support of the Wales Association of SACREs / SACs, this collaborative study is devised and undertaken by researchers from the St Giles' Centre Wrexham, Bishop Grosseteste University, Cardiff Metropolitan University, Neath Port Talbot Education Support, and Llanishen High School, Cardiff. <i>What is the study about?</i> This study is designed to access directly teachers' experiences of and engagement with curriculum change in Wales, with a focus on Religion, Values and Ethics (RVE). The aim of the study is to provide a 'snapshot' of teachers' perspectives on RVE in the Curriculum for Wales, which can inform provision for professional learning and professional dialogue at both local and national levels. This research is being conducted in the public interest. <i>What will participation in the study involve?</i> If potential participants decide to take part in the study, once they have read the participant information on page 1 of the survey, they then need to respond

ymateb i'r cwestiynau Caniatâd sy'n dilyn. Yna byddant yn cael mynediad i'r arolwg, lle gofynnir iddynt fel unigolyn roi rhywfaint o wybodaeth gyffredinol gwyno amdanynt eu hunain ac yna ymateb i ystod o gwestiynau sy'n eu gwahodd i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau proffesiynol sy'n berthnasol i CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cwestiynau hyn yn cymryd tua 25 – 30 munud i'w cwblhau.

Oes rhaid iddyn nhw gymryd rhan?

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol ac ni fydd dewis peidio â chymryd rhan yn effeithio arnynt mewn unrhyw ffordd. Gallant hefyd ddewis tynnu eu cyfranogiad yn ôl, heb roi rheswm, trwy gysylltu â Dr Tania ap Sion (tania.apsion@bishopg.ac.uk). Rhoddir rhagor o fanylion am dynnu'n ôl o'r astudiaeth isod.

A fydd unrhyw fanteision posibl o gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?

Bydd cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn helpu i rannu safbwyntiau athrawon ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at ddeialog broffesiynol a lywir gan ymchwil a dysgu proffesiynol.

Beth yw anfanteision, sgil effeithiau neu risgiau posibl cymryd rhan yn yr astudiaeth hon? Ni chanfuwyd unrhyw anfanteision, sgil-effeithiau na risgiau i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

A fydd fy rhan yn cael ei chadw'n gyfrinachol? Bydd data'r cyfranogwyr yn cael ei gasglu drwy onlinesuCGMys.jisc.ac.uk ar lwyfan JISC, sy'n cydymffurfio â GPDR. Bydd y data yma yn cael eu storio'n ddiogel ym Mhrifysgol yr Esgob Grosseteste ar

to the Consent questions which follow. They will then gain access to the survey, where they will be asked as an individual to provide some brief general information about themselves and then respond to a range of questions which invite them to share their professional views and experiences relevant to RVE in the Curriculum for Wales. These questions will take approximately 25 – 30 minutes to complete.

Do they have to take part?

No. Participation in this study is completely voluntary and choosing not to take part will not affect them in any way. They can also choose to withdraw their participation, without giving a reason, by contacting Dr Tania ap Sion (tania.apsion@bishopg.ac.uk). Further details about withdrawing from the study are provided below.

Will there be any possible benefits in taking part in this study?

Participation in this study will help teacher perspectives on RVE in the Curriculum for Wales to be shared at local, national and international levels. This will help contribute to research-informed professional dialogue and professional learning.

What are the possible disadvantages, side effects or risks, of taking part in this

study? No disadvantages, side effects or risks to taking part in this study have been identified.

Will taking part be kept confidential?

Participants' data will be collected via onlinesurveys.jisc.ac.uk on the JISC platform, which is GPDR compliant. These data will be stored securely at Bishop Grosseteste University on the University's double-encrypted OneDrive,

OneDrive y Brifysgol sydd wedi'i amgryptio ddwywaith, a dim ond y tîm ymchwil fydd yn ei gael drwy ddefnyddio cyfrifiaduron wedi'u hamgryptio, a ddiogelir gan gyfrinair. Ni ofynnir i'r cyfranogwyr ar unrhyw adeg yn yr arolwg i ddarparu unrhyw ddata personol enw neu enw yr ysgol neu leoliad. Bydd data'n ddienw os cynhwysir unrhyw wybodaeth adnabyddadwy. Ar ôl cwblhau'r gwaith casglu data, bydd yr holl ddata'n cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel am hyd at 10 mlynedd.

Beth fyddwch y tîm ymchwil yn ei wneud gyda'r data? Fel rheolydd data ar gyfer yr astudiaeth hon, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Bydd Prifysgol yr Esgob Grosseteste yn cadw ymatebion i'r arolwg am 10 mlynedd ar ôl diwedd yr astudiaeth, ac ar ôl hynny bydd yr holl ddata'n cael ei ddileu. Bydd ymatebion dienw pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael eu hysgrifennu mewn adroddiadau, erthyglau academiaidd, ac erthyglau newyddion ymchwil, a fydd ar gael am gyfnod amhenodol. Byddant hefyd yn cael eu cyflwyno mewn cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd proffesiynol. Mae hawliau cyfranogwyr i gael mynediad at, newid neu symud eu gwybodaeth yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eu gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir.

Beth fydd yn digwydd os nad yw cyfranogwr am barhau i fod yn rhan o'r astudiaeth? Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar gyfranogwyr posibl i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Os yw cyfranogwr yn dewis tynnu'n ôl ar ôl i cyflwyno'u hymateb i'r arolwg, bydd angen iddynt ddarparu eu 'ID Ymateb' a

and will be accessible only by the research team using encrypted, password-protected computers. At no point in the survey will participants be asked to provide any personal data such as their name or their school or setting name. Data will be anonymised should any identifiable information be included. Following the completion of data collection, all data will be kept confidentially and securely for up to 10 years. Following the completion of data collection, all data will be kept confidentially and securely for up to 10 years.

What will the research team do with my data? As data controller for this study, we are committed to protecting the rights of individuals in line with data protection legislation. Bishop Grosseteste University will keep survey responses for 10 years after the end of the study, after which all data will be deleted. The anonymous responses of everyone who completes the survey will be written up in reports, academic articles, and research news articles, which will be made available indefinitely. They will also be presented at conferences, seminars and professional meetings. Participant rights to access, change or move their information are limited, as we need to manage their information in specific ways in order for the research to be reliable and accurate.

What will happen if a participant does not want to carry on being part of the study? There is no obligation for a potential participant to participate in the study. If a participant chooses to withdraw after they have submitted their survey response, they will need to provide their 'Response ID' which is randomly

gynhyrchir ar hap gan yr arolwg pan fyddant yn cyflwyno'u hymateb. Mae'r ID ymateb hwn yn caniatáu i'w data gael ei adnabod a'i ddileu. Os byddant yn colli eu ID ymateb, ni fyddant yn gallu tynnu'n ôl o'r astudiaeth oherwydd ni fydd unrhyw ddata personol adnabod yn cael ei gasglu yn yr astudiaeth. Os ydynt yn dewis tynnu'n ôl o'r astudiaeth, dylent gysylltu â Dr Tania ap Sion (tania.apsion@bishopg.ac.uk)

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'r astudiaethau'n cael eu rhannu â CCYSAGC, CYSAGau/CYSau lleol, awdurdodau lleol, consortia, Llywodraeth Cymru, a chyrff proffesiynol eraill sydd â diddordeb mewn CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu lledaenu trwy gyflwyniadau mewn cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd yn ogystal â thrwy gyhoeddiadau. Nid yw'r astudiaeth yn casglu data personol fel enwau neu enwau ysgolion neu leoliadau felly mae'r data'n ddienw. Bydd unrhyw ddyfyniadau a ddefnyddir yn ddienw ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n osgoi adnabod unrhyw unigolyn, ysgol neu leoliad.

Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth hon wedi'i hadolygu a'i chymeradwyo gan bwyllgor moeseg ymchwil Prifysgol yr Esgob Grosseteste a phwyllgor moeseg ymchwil Prifysgol Metropolitan Caerdydd (CSESP -Sta-323).

Â phwy y dylwn gysylltu os wyf am gael rhagor o wybodaeth?

Dr Tania ap Sion, Darllenydd Crefydd, Dyniaethau ac Addysg, tania.apsion@bishopg.ac.uk

generated by the survey when they submit their response. This response ID allows their data to be identified and deleted. If they lose their response ID, they will not be able to withdraw from the study because no identifying personal data will be collected in the study. Should they choose to withdraw from the study, they contact Dr Tania ap Sion (tania.apsion@bishopg.ac.uk)

What will happen to the results of the study?

Study findings will be shared with WASACRE, local SACREs/ SACs, local authorities, consortia, Welsh Government, and other professional bodies with an interest in RVE in the Curriculum for Wales. These findings will be disseminated through presentations at conferences, seminars and meetings as well as through publications. The study does not collect personal data such as names or school or setting names so the data are anonymous. Any quotations used will be anonymised and presented in a way to avoid identification of any individual, school or setting.

Who has reviewed the study?

This study has been reviewed and approval given by Bishop Grosseteste University research ethics committee and the Cardiff Metropolitan University research ethics committee (CSESP -Sta-323).

Who should I contact if I want further information?

Dr Tania ap Sion, Reader in Religions, Humanities and Education, tania.apsion@bishopg.ac.uk

Â phwy y dylwn gysylltu os dymunaf godi ymholiadau neu bryderon?

Yn achos unrhyw angen i godi ymholiadau neu bryderon am y prosiect ymchwil hwn, mae croeso i chi ddefnyddio'r manylion cyswllt annibynnol hyn:

Yr Athro Caroline Horton, Cadeirydd
Pwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol yr
Esgob Grosseteste,
caroline.horton@bishopg.ac.uk.

DOLEN AROLWG: FERSIWN CYMRAEG

<https://app.onlinesurveys.jisc.ac.uk/s/bishopg/the-teacher-voice-project-rve-in-the-curriculum-for-wales-dupli>



Who should I contact if I wish to raise queries or concerns?

In case of any need to raise queries or concerns about this research project, you are welcome to use these independent contact's details:

Professor Caroline Horton, Chair of
Bishop Grosseteste University's Research
Ethics Committee,
caroline.horton@bishopg.ac.uk.

SURVEY LINK: ENGLISH VERSION

<https://app.onlinesurveys.jisc.ac.uk/s/bishopg/the-teacher-voice-project-rve-in-the-curriculum-for-wales>



This page is intentionally left blank



Cwricwlwm i Gymru

Crefydd,
Gwerthoedd a
Moeseg






[Click for Slide Notes](#)



Curriculum for Wales

Religion, Values
and Ethics



Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Statws cyfreithiol y canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

Mandadol

Mae'r canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a bwriedir iddyn nhw helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Religion, values and ethics

Legal status of the RVE guidance

Mandatory

The guidance on RVE contained within the Humanities Area is statutory and published under section 71 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (the Act) and designed to assist those responsible under the Act for designing the RVE syllabus as part of the school curriculum.



Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Grefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~
- “Ystyried”
 - Meysydd Llafur Cytunedig
 - Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~
- “Have Regard”
 - Agreed Syllabi
 - Religion, values and ethics guidance

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~
- “Ystyried”
 - Meysydd Llafur Cytunedig
 - Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Datblygiad ysbrydol
 - *yn unigolion iach, hyderus sydd â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol*
 - Ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol – Estyn
 - Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~
- “Have Regard”
 - Agreed Syllabi
 - Religion, values and ethics guidance
- Spiritual development
 - *healthy, confident individuals who have secure values and are establishing their spiritual and ethical beliefs*
 - Spiritual, moral, social and cultural – Estyn
 - Curriculum and Assessment Act (Wales) 2021

Section 59(2) General curriculum requirement

The requirement is that the curriculum is a balanced and broadly based curriculum that -

- (a) promotes the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of the pupils and of society, and*
- (b) prepares the pupils for the opportunities, responsibilities and experiences of later life.*

- 29 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 3 i 14 oed**
- (1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion nad ydynt eto wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi.
 - (2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl—
 - (a) sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny), a
 - (b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.
 - (3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)—
